OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 1672

# Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2006

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2006.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Mehefin 2006 ond—

(a) yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae'r diwygiadau a nodir yn Atodlen 1 yn effeithiol ers 11 Tachwedd 2004; a

(b) mae'r diwygiadau a nodir yn Atodlen 2 yn effeithiol ers 5 Rhagfyr 2005.

(3) Mae'r diwygiadau canlynol a nodir yn Atodlen 1 yn effeithiol fel a ganlyn—

(a) mae'r diwygiadau canlynol yn effeithiol o 23 Mehefin 2006 ymlaen—

(i) y diwygiadau a wneir gan baragraff 9, i'r graddau y mae'n ymwneud â rheol A13 (sy'n ymwnud ag oedran pensiwn arferol); a chan baragraff 15(a)(iii), (b)(ii), (c) ac (ch) (sy'n ymwneud â phensiynau gohiriedig); a

(ii) y diwygiadau a wneir gan baragraff 7(a) a (b)(i), paragraff 75(ch), i'r graddau y mae'n ymwneud â mewnosod paragraffau (5) a (6) rheol L1, a pharagraffau 78, 79 ac 82(b) (sy'n ymwneud ag atal dyblygu dyfarniadau penodol);

(b) mae'r diwygiadau canlynol yn effeithiol ers 13 Medi 2004—

(i) y diwygiad a wneir gan baragraff 81(b) (sy'n ymwneud â'r diffiniad o "independent qualified medical practitioner"); a

(ii) y diwygiad a wneir gan baragraff 86(b)(ii)(aa) (sy'n ymwneud â'r gwasanaeth sy'n gyfrifadwy pan dderbynnir gwerth trosglwyddo); ac

(c) mae'r diwygiadau a wneir gan baragraffau 24 (sy'n ymwneud â chyfyngu ar ddyfarniadau i weddwon) a 25 (sy'n ymwneud â budd-dal angenrheidiol a phensiwn dros dro gweddwon) yn effeithiol ers 1 Mawrth 1992.